

Y CYFANSODDIAD ADRAN 5

5. Y BWRDD GWEITHREDOL

5.1 Cyflwyniad

Penodir y Bwrdd Gweithredol i gyflawni holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb unrhyw ran arall o'r Cyngor, boed hynny yn ôl y Gyfraith neu o dan y Cyfansoddiad hwn.

5.2 Ffurf a Chyfansoddiad y Bwrdd Gweithredol

Bydd y Bwrdd Gweithredol yn cynnwys:

5.2.1 Arweinydd y Cyngor (yr "Arweinydd"); ac

5.2.2 o leiaf ddau ond dim mwy na naw Cyngorydd arall a benodir i'r Bwrdd Gweithredol gan y Cyngor.

5.3 Yr Arweinydd

5.3.1 Ethol

Bydd yr Arweinydd yn Gyngorydd a etholwyd i swydd yr Arweinydd gan y Cyngor.

5.3.2 Cyfnod yn y Swydd

Penodir yr Arweinydd yn flynyddol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor.

5.3.3 Rôl yr Arweinydd

Bydd yr Arweinydd yn Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol ac yn pennu portffolios Aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Adran 6.

5.4 Dirprwy Arweinydd

5.4.1 Bydd y Cyngor yn penodi un o Aelodau'r Bwrdd Gweithredol fel Dirprwy Arweinydd i weithredu fel Arweinydd yn ei (h)absenoldeb ef/hi.

5.4.2 Caiff y Dirprwy Arweinydd arfer holl swyddogaethau'r Arweinydd pan fo'r swydd yn wag neu pan fo'r Arweinydd yn absennol neu'n methu â gweithredu fel arall.

5.5 Aelodau Eraill y Bwrdd Gweithredol

Bydd Aelodau eraill y Bwrdd Gweithredol yn Gyngorwyr a benodwyd i swydd Aelod o'r Bwrdd Gweithredol gan y Cyngor. Bydd pob Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn dal y swydd hyd nes:

5.5.1 y bydd ef/hi yn ymddiswyddo o'r swydd honno; neu

5.5.2 y bydd ef/hi yn cael ei atal rhag bod yn Gyngorydd / yng Nghyngorydd o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er gaiff ef/hi ail gydio mewn swydd ar ddiwedd y cyfnod atal); neu

5.5.3 y caiff ef/hi ei (d)diswyddo o'r swydd honno gan yr Arweinydd ar ôl i'r Arweinydd roi'r cyfryw gyfnod o rybudd (os o gwbl) ag y mae'n ystyried sy'n briodol ac mae'n rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid; neu

5.5.4 y bydd ef/hi yn peidio â bod yn Gyngorydd.

5.6 Dirprwyo Swyddogaethau

Caiff y Bwrdd Gweithredol arfer Swyddogaethau Gweithredol neu, fel arall, wneud trefniadau i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros eu cyflawni i'r canlynol:

5.6.1 un o Bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol (sy'n cynnwys Aelodau gweithredol yn unig);

5.6.2 Aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol;

5.6.3 cyd-bwyllgor;

5.6.4 awdurdod lleol arall neu weithrediaeth awdurdod lleol arall;

5.6.5 Prif Swyddog.

5.7 Rheolau Gweithdrefnol a Thrafod

Bydd trafodion y Bwrdd Gweithredol yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y Weithrediaeth yn Adran 5.8 isod.

5.8 Rheolau Gweithdrefn y Bwrdd Gweithredol

Sut mae'r Bwrdd Gweithredol yn Gweithredu?

5.8.1 Dirprwyo gan y Bwrdd Gweithredol

Yn dilyn y cyfarfod blynyddol, bydd y Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, yn paratoi ac yn cyflwyno i'w gymeradwyo Gynllun Gweithredol o Ddirprwyaethau yn nodi dirprwyaethau Swyddogaethau Gweithredol, gan gynnwys, lle cymeradwywyd yr egwyddor fel rhan o Drefniadau Gweithredol y Cyngor, yr awdurdod dirprwyedig o bob Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, ac wedi hynny yn parhau i adolygu hyn ac yn cyflwyno diweddariadau i'r Cynllun fel y bo'n briodol. Yn ogystal, mae gan yr Arweinydd bwerau dan adran 15 (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i gyflawni'n bersonol neu i drefnu rhyddhau o dan bwerau dirprwyedig eraill unrhyw swyddogaethau Gweithredol nad ydynt yn dod dan y Cynllun Dirprwyo am y tro.

5.8.2 Is-ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol

(a) Pan fydd y Bwrdd Gweithredol, un o bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol neu Aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am Swyddogaeth Weithredol, caiff ddirprwyo ymhellach i drefniadau ar y cyd neu Swyddog.

(b) Oni bai bod yr Arweinydd yn cyfarwyddo fel arall, caiff un o bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol y dirprwywyd swyddogaethau iddo gan yr Arweinydd ddirprwyo ymhellach i Swyddog.

- (c) Pan fydd Swyddogaethau Gweithredol wedi'u dirprwyo, ni fydd y ffaith honno'n atal yr unigolyn neu'r corff a ddirprwyodd y swyddogaethau dirprwyedig rhag eu cyflawni.

5.8.3 Cynllun Dirprwyo a Swyddogaethau Gweithredol y Cyngor

- (a) Caiff yr Arweinydd ddiwygio'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â Swyddogaethau Gweithredol ar unrhyw adeg. Wrth wneud hynny, bydd yr Arweinydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid a'r unigolyn, y corff neu'r pwyllgor dan sylw. Mae'n rhaid i'r rhybudd amlinellu maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a pha un a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar unrhyw unigoly, corff neu bwyllgor. Bydd y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor yn amlinellu'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd.
- (b) Pan fydd yr Arweinydd yn ceisio tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar un o bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol, ystyrir bod rhybudd wedi'i roi i'r pwyllgor hwnnw pan fydd wedi'i roi i'w gadeirydd.

5.8.4 Gwrthdaro Buddiannau

- (a) Pe byddai gan yr Arweinydd wrthdaro buddiannau, dylid ymdrin â hyn fel yr amlinellir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran 18 y Cyfansoddiad hwn.
- (b) Pe byddai gan unrhyw Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wrthdaro buddiannau, dylid ymdrin â hyn fel yr amlinellir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran 18 Cyfansoddiad hwn.
- (c) Os yw'r pŵer i arfer Swyddogaeth Weithredol wedi'i ddirprwyo i un o bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol, Aelod unigol neu Swyddog, a bod gwrthdaro buddiannau'n codi, yna bydd y swyddogaeth yn cael ei harfer yn y lle cyntaf gan yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y ddirprwyaeth ac fel arall fel y nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran 18 y Cyfansoddiad hwn.

5.8.5 Cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol

Bydd y Bwrdd Gweithredol yn cyfarfod o leiaf 10 gwaith pob flwyddyn. Bydd y Bwrdd Gweithredol yn cyfarfod ym mhrif swyddfeydd y Cyngor neu mewn lleoliad arall i'w gytuno gan yr Arweinydd.

5.8.6 Cyfarfodydd Cyhoeddus neu Breifat o'r Bwrdd Gweithredol?

Bydd y Bwrdd Gweithredol yn cynnal ei gyfarfodydd/chyfarfodydd yn gyhoeddus, ac eithrio yn yr amgylchiadau a nodir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 er enghraifft pan fydd gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn cael ei thrafod.

5.8.7 Cworwm

- (a) Y cworwm ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Gweithredol fydd pump gan gynnwys yr Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd.
- (b) Y cworwm ar gyfer cyfarfod un o bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol fydd o leiaf dau.

5.8.8 Presenoldeb o Bell

Caniateir presenoldeb o bell ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol a'i bwyllgorau ag is-bwyllgorau ar yr amod bod y rhai sy'n cymryd rhan yn gallu siarad â'i gilydd a chael eu clywed ac mewn cyfarfodydd sy'n cael eu gweddarlledu i allu gweld a gweld ei gilydd hefyd.

5.8.9 Sut bydd Penderfyniadau'n cael eu Gwneud gan y Bwrdd Gweithredol?

- (a) Bydd Penderfyniadau Gweithredol gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfanwydd yn cael eu gwneud mewn cyfarfod a gynullwyd yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn.
- (b) Pan ddirprwyir Penderfyniadau Gweithredol i un o bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol, bydd y rheolau sy'n berthnasol i Benderfyniadau Gweithredol a wneir ganddo yr un fath â'r rhai hynny sy'n berthnasol i Benderfyniadau Gweithredol a wneir gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfanwydd.

5.8.10 Galwad i mewn i benderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol

Rheolau

- (a) Pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y Bwrdd Gweithredol, aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol neu un o Bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol neu o dan drefniadau ar y cyd, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid, gan gynnwys trwy ddull electronig lle y bo'n bosibl, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor fel arfer o fewn tair niwrnod gwaith clir o'i wneud. Bydd copi yr holl benderfyniadau o'r fath yn cael eu hanfon at bob Aelod o fewn yr un raddfa amser, gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad.
- (b) Bydd yr hysbysiad hwnnw'n cynnwys y dyddiad y'i cyhoeddir arno ac yn nodi y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y ceir ei weithredu ar ddiwedd pum niwrnod gwaith clir ar ôl i'r penderfyniad gael ei gyhoeddi, oni bai bod Pwyllgor Craffu yn ei wrthwynebu a'i alw i mewn i'w adolygu.
- (c) Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y Swyddog Monitro yn galw i mewn penderfyniad i graffu arno gan Bwyllgor Craffu os gofynnir am hynny gan unrhyw bump Aelod anweithredol a roi rybudd o'r alw mewn i'r sawl a cymerodd y penderfyniad.
- (ch) Rhaid i'r rhybudd galw i mewn:-

- (i) nodi'r penderfyniad(au) perthnasol;
 - (ii) nodi'r rhesymau am alw i mewn gyda'r dystiolaeth ategol a dibynnwyd arno;
 - (iii) cael ei lofnodi gan bump Aelod anweithredol.
- (d) Bydd y Swyddog Monitro yn atgyfeirio'r rhybudd o alw i mewn i'r Pwyllgor Craffu mwyaf priodol.
- (dd) Yn achos penderfyniad y Bwrdd Gweithredol, bydd y Pwyllgor Craffy yn cyfarfod o fewn amserlen a fydd yn galluogi unrhyw atgyfeiriad o'r penderfyniad yn ôl i'r Bwrdd Gweithredol i'w gynnwys yn y rhybudd statudol ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredol.
- (e) Yn achos penderfyniad Aelod Arweiniol, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o fewn amserlen a fydd yn galluogi unrhyw atgyfeiriad o'r penderfyniad yn ôl i'r Aelod Arweiniol i gael ei ystyried o fewn uchafswm o 18 diwrnod gwaith o gyhoeddi'r penderfyniad gwreiddiol.
- (f) Hyd nes mae'r Pwyllgor Craffu yn ystyried y mater na fydd y penderfyniad yn cael ei weithredu.
- (ff) Os bydd y Pwyllgor Craffu dal gyda phryderon, yna caiff atgyfeirio'r penderfyniad yn ôl at y Bwrdd Gweithredol neu'r Aelod Arweiniol i'w ailystyried, bydd hyn ar ffurf adroddiad a gyflwynir gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol i'r Bwrdd Gweithredol neu'r Aelod Arweiniol. Bydd adroddiad o'r fath yn rhoi rhesymau dros beidio â chefnogi'r penderfyniad. Os mae'r penderfyniad yn cael ei atgyferio'n ôl at y sawl wnaeth y penderfyniad rhaid iddynt ailystyried o fewn yr amser a amlinellir ym mharagraff (dd) a (e) uchod, yn diwygio'r penderfyniad neu ddim, cyn mabwysiadu penderfyniad terfynol. Ni all y penderfyniad hwnnw, pan gaiff ei ailystyried gan y Bwrdd Gweithredol neu'r Aelod Arweiniol o dan y broses hwn ei alw i mewn unwaith eto.
- (g) Os, ar ôl galw i mewn penderfyniad, nad yw Pwyllgor Craffu yn cyfarfod o fewn y cyfnod a nodir uchod, neu os yw'n cyfarfod ond nid yw'n cyfeirio'r mater yn ôl i'r unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Chraffu, neu mewn achos galw i mewn penderfyniad y Bwrdd Gweithredol ar ddyddiad cyfarfod nesa, yn amodol ar iddo fod y mis canlynol, neu ar ddiwedd y cyfnod o 18 diwrnod gwaith ers cyhoeddi'r penderfyniad, pa un bynnag sydd gynharaf.

- (h) Caiff y Swyddog Monitro roi feto ar unrhyw gais am alw i mewn os yw y tu allan i gylch gorchwyl y cynllun hwn.
- (i) Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n rhaid i bob Aelod sy'n gofyn am alw mater i mewn fynychu'r cyfarfod pryd yr ystyrir y mater.

Galw i Mewn a Brys

- (I) Ni fydd y weithdrefn galw i mewn a amlinellir uchod yn berthnasol pan fo'r penderfyniad a wneir gan y Gweithrediaeth yn un brys. Bydd penderfyniad yn un brys pe byddai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw i mewn, er enghraifft, yn niweidiol iawn i fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau cyhoeddus eraill. Bydd y cofnod o'r penderfyniad, a'r hysbysiad a roddir ohono i'r cyhoedd, yn datgan pa un a yw'r penderfyniad yn un brys, ym marn yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, ac felly ni cheir ei alw i mewn.
- (II) Bydd gweithrediad y darpariaethau sy'n ymwneud â galw i mewn a brys yn cael ei fonitro'n flynyddol a chyflwynir adroddiad i'r Cyngor gyda chynigion ar gyfer adolygu os bydd angen.

Sut y Cynhelir Cyfarfod y Bwrdd Gweithredol?

5.8.11 Pwy fydd yn Llywyddu?

Bydd yr Arweinydd yn llywyddu unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol neu ei bwyllgorau y mae'n bresennol ynddo. Yn absenoldeb yr Arweinydd, bydd y Dirprwy Arweinydd yn llywyddu. Yn ei (h)absenoldeb ef/hi, bydd unigolyn yn cael ei benodi i lywyddu gan y rhai hynny sy'n bresennol.

5.8.12 Pwy Gaiff Fynychu?

Amlinellir y manylion hyn yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn.

5.8.13 Pa Fusnes?

Ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol, bydd y busnes canlynol yn cael ei gynnal:

- (a) ystyried cofnodion y cyfarfod diwethaf;
- (b) datganiadau o fuddiannau, os oes rhai;
- (c) cwestiynau gan y cyhoedd a/neu Aelodau;
- (ch) materion a atgyfeiriwyd i'r Bwrdd Gweithredol (boed hynny gan Bwyllgorau Craffu neu gan y Cyngor) i'w hystyried gan y Bwrdd Gweithredol yn unol â'r darpariaethau a geir yn y Rheolau Gweithdrefnol Trosolwg a Chraffu neu Reolau Gweithdrefnol y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi a amlinellir yn Adrannau 7 a 15 y Cyfansoddiad hwn;

- (d) ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau Craffu;
- (dd) ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol;
- (e) adroddiadau gan Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a/neu Swyddogion yr Awdurdod.

5.8.14 Ymgynghori

Mae'n rhaid i'r holl adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol gan unrhyw Aelod o'r Bwrdd Gweithredol neu Swyddog ar gynigion yn ymwneud â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi gynnwys manylion am natur a graddau ymgynghoriad a gynhaliwyd â rhanddeiliaid a chyda'r Pwyllgor Craffu a chanlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd adroddiadau ar faterion eraill yn nodi manylion a chanlyniad ymgynghoriadau fel y bo'n briodol. Bydd lefel yr ymgynghori sy'n ofynnol yn briodol i natur y mater sy'n cael ei ystyried.

5.8.15 Pwy gaiff roi Eitemau ar Agenda'r Bwrdd Gweithredol?

- (a) Yr Arweinydd fydd yn penderfynu ar y rhaglen ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol. Caiff ef/hi roi unrhyw fater ar agenda unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol pa un a yw awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Bwrdd Gweithredol, un o'i bwyllgorau neu unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas â'r mater hwnnw ai peidio.
- (b) Caiff unrhyw Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fynnu bod y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn sicrhau bod eitem yn cael ei rhoi ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredol i'w hystyried.
- (c) Caiff Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Ariannol gynnwys eitem i'w hystyried ar agenda cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol a chaiff fynnu bod cyfarfod o'r fath yn cael ei gynnull yn unol â'i (d)dyletswyddau statudol.
- (ch) Mewn amgylchiadau eraill, pan fydd unrhyw ddau o Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Prif Swyddog Ariannol a'r Swyddog Monitro o'r farn bod angen galw cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol i ystyried mater y mae angen gwneud penderfyniad arno, cânt gynnwys eitem ar agenda cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol ar y cyd. Os nad oes cyfarfod i ymdrin â'r mater dan sylw, yna caiff yr unigolyn/unigolion sydd â hawl i gynnwys eitem ar yr agenda fynnu hefyd fod cyfarfod yn cael ei ystyried ac y caiff y mater ei drafod ynddo.

5.8.16 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Mae cyfle ym mhob cyfarfod arferol o'r Bwrdd Gweithredol i aelodau'r cyhoedd ofyn cwestiynau sy'n berthnasol i feysydd y mae ganddo gyfrifoldebau gweithredol amdanynt a bydd y darpariaethau canlynol yn gymwys:

- (a) Rhaid cyflwyno cwestiynau yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid heb fod yn hwyrach na 5pm pump diwrnod gwaith clir (i.e. heb cynnwys penwythnosau na dyddiau gŵyl banc) cyn cyfarfod y Bwrdd Gweithredol.
- (b) Gall y Cadeirydd yn ôl ei ddoethineb llwyr wrthod caniatáu cwestiynau, ni fydd cwestiynau yn cael eu caniatáu yn yr achosion canlynol:
 - (i) bod y cwestiwn yn gofyn am wybodaeth sydd eisoes wedi bod yn destun cwestiwn cyhoeddus p'un ai mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn neu'r Bwrdd Gweithredol;
 - (ii) bod y cwestiwn yn ymwneud â materion barnwrol neu led-farnwrol;
 - (iii) bod y cwestiwn yn ymwneud â chais unigol, apêl neu benderfyniad arall;
 - (iv) bod y cwestiwn yn ymwneud â chyflogai i'r Cyngor;
 - (v) bod y cwestiwn yn ymwneud â materion gwleidyddol;
 - (vi) bod y mater yn ymwneud â materion sydd wedi'u heithrio yn rhinwedd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (neu unrhyw ailddeddfiad neu ddiwygiad iddo);
 - (vii) bod y cwestiwn yn flinderus, yn ailadroddus neu'n rhy hir.
- (c) Dim ond un cwestiwn y gellir ei gyflwyno gan unigolyn.
- (ch) Ni fydd yr amser a ganiateir ar gyfer cwestiynau cyhoeddus yn fwy na 15 munud.
- (d) Bydd pob cwestiwn yn cael ei roi a'i ateb.

5.8.17 Cwestiynau gan Aelodau

Mae cyfle ym mhob cyfarfod arferol o'r Bwrdd Gweithredol i Aelodau ofyn cwestiynau sy'n berthnasol i feysydd y mae ganddo gyfrifoldebau gweithredol amdanynt a bydd y darpariaethau canlynol yn gymwys:

- (a) rhaid cyflwyno cwestiynau yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid heb fod yn hwyrach na 5 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Bwrdd Gweithredol;
- (b) dim ond un cwestiwn y gellir ei gyflwyno gan unrhyw Aelod;
- (c) os mae'r cwestiwn yn ymwneud a materion brys, rhaid i'r Aelod gael caniatâd y Cadeirydd a'r Aelod Gweithredol at bwy mae'r cwestiwn i'w ofyn a rhaid cyflwyno cynnwys y cwestiwn i'r Prif

Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid erbyn 4 pm y diwrnod gwaith cynt;

- (ch) bydd pob cwestiwn yn cael ei roi a'i ateb;
- (d) caiff un cwestiwn atodol heb roi rhybudd i'r Aelod ei ofyn i'r Aelod Gweithredol y gofynnwyd y cwestiwn cyntaf iddo. Mae'n rhaid i'r cwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ymateb.

5.8.18 Aflonyddwch gan y Cyhoedd a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

- (a) Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhoi rhybudd i'r unigolyn dan sylw. Os bydd yn parhau i dorri ar draws, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo ef/iddi hi gael ei symud o ystafell y cyfarfod.
- (b) Os oes aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o ystafell y cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, caiff y Cadeirydd alw am i'r rhan honno gael ei chlirio.
- (c) Caniateir defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd cyn belled ag na aflonyddir ar reolaeth y cyfarfod.